
Dyfarnu trwydded radio masnachol: Ceredigion

Datganiad

Crynodeb

Mae'r drwydded radio masnachol lleol FM ar gyfer Ceredigion, sydd wedi'i hail-hysbysebu'n llawn, wedi cael ei hail-ddyfarnu i'r unig ymgeisydd, sef Radio Ceredigion Limited.

Y penderfyniad ar ddyfarnu trwydded Ceredigion

Fe wnaeth Ofcom¹ ystyried yr ail gais am drwydded yn ôl y pedwar maen prawf ar gyfer dyfarnu trwydded radio masnachol lleol a nodir yn adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990. Mae'r meini prawf hyn wedi'u nodi yn llawn yn ail ran y datganiad hwn hefyd.

Nododd y rheini sy'n penderfynu bod Ceredigion, sydd â Dalgylch Mesuradwy o tua 72,000 o oedolion (15 oed neu hŷn) ar hyn o bryd, yn drwydded fach iawn (o ran y boblogaeth) mewn ardal wledig yn bennaf. O gofio hyn, roedd Ofcom yn credu bod adran 105(a), sef gallu'r ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth, yn bwysig iawn wrth ystyried nodweddion y drwydded fyddai'n cael ei rhoi a'r cais amdani.

Dywedodd Radio Ceredigion Ltd ('RCL') yn ei gais y byddai, ar gyfer cyfnod y drwydded newydd, yn rhoi gwasanaeth cyfnewid a fyddai'n cael ei ddarparu o dan drwydded De Cymru (Nation Radio) yn lle gwasanaeth presennol Radio Ceredigion. Mae Radio Ceredigion a Nation Radio yn rhan o'r grŵp Nation Broadcasting.

Wrth asesu gallu'r ymgeisydd i gynnal ei wasanaeth arfaethedig, fe wnaethom nodi bod trwydded Ceredigion, yn y gorffennol, wedi bod yn un heriol i'w gweithredu er elw. Yn rhannol, y rheswm am hyn yw ei bod hi'n ardal ddarlledu fawr ac yn gofyn am dri amledd gwahanol. Hefyd, mae poblogaeth yr ardal yn fach ac nid yw ei sylfaen yn cynnig llawer o botensial ar gyfer refeniw masnachol. Er bod RCL wedi bod yn gwneud colledion yn ddiweddar, ar ôl gwneud mymryn o elw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ei riant gwmni, Nation Broadcasting, yn cynhyrchu arian a does ganddo ddim dyledion allanol, gyda chronfeydd rhanddeiliaid positif. Bydd y gwasanaeth Ceredigion newydd arfaethedig, yn olygyddol, yn cael ei ddarlledu ar yr un pryd yn union â Nation Radio (De Cymru). Felly, yn ei hanfod, ni fydd yn gofyn am wariant ac eithrio marchnata a throsglwyddo, a bydd RCL yn dal i allu cael refeniw hysbysebu lleol o'r drwydded.

Doedd y rheini sy'n penderfynu ddim yn credu bod RCL wedi darparu prin ddim tystiolaeth i ddangos y byddai ei gynnig i ddarparu'r gwasanaeth Nation Radio yn bodloni chwaethau a diddordebau gwrandawyr yn ardal Ceredigion. Roedd y diffyg ymrwymiad i ddarparu unrhyw gynnwys lleol a phenodol i Geredigion ar gyfer cyfnod y drwydded newydd, a'r ffaith bod y ddyletswydd i ddarparu cynnwys yn y Gymraeg wedi cael ei ddileu mewn ardal sydd â chyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, yn cyfrannu at y safbwynt hwn. Hefyd, roedd y rheini sy'n penderfynu yn credu y byddai'r gwasanaeth Nation Radio arfaethedig yn llai tebygol o ehangu'r dewis ar gyfer gwrandawyr yn ardal Ceredigion na'r gwasanaeth Radio Ceredigion presennol. Y rheswm am hyn yw'r diffyg ymrwymiad i ddarparu deunydd lleol, gan gynnwys newyddion lleol, a'r diffyg ymrwymiad i ddarparu cynnwys Cymraeg. Hefyd, roedd y rheini sy'n penderfynu yn credu y byddai Fformat Nation Radio o bosib yn golygu bod y gerddoriaeth mae'n ei darlledu yn gorgyffwrdd yn sylweddol â cherddoriaeth gwasanaeth Heart, sydd hefyd ar gael yn ardal Ceredigion. Nodwyd yr ymrwymiad arfaethedig i gynhyrchu 21 awr o gynnwys y diwrnod yn ardal y drwydded gymeradwy bresennol², ond mae'r

¹ Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud gan swyddogion gweithredol Ofcom o dan awdurdod dirprwyedig gan Fwrdd Ofcom. Yn y datganiad hwn, cyfeirir at y swyddogion hyn fel "y rheini sy'n penderfynu".

² Yn y gorffennol, fe wnaeth Ofcom ganiatáu i holl oriau rhaglenni lleol Radio Ceredigion gael eu darlledu o stiwdios yn Saint Hilari, yn ardal gymeradwy Gorllewin Cymru.

rheini sy'n penderfynu yn cydnabod, fel y nodir yn y diwygiadau diweddar i ganllawiau lleolrwydd Ofcom, nad yw ymrwymo i raglenni sydd wedi'u gwneud yn lleol o reidrwydd yn cyfateb i gynnwys sy'n lleol o ran natur. Fodd bynnag, roedd y rheini sy'n penderfynu yn credu bod ymrwymiad RCL i ddarparu newyddion cenedlaethol Cymreig yn ystod oriau brig o bosib yn cynnig rhywbeth gwahanol ar gyfer y gwasanaeth, er ein bod ni'n egluro yn ein canllawiau lleolrwydd ein bod ni'n disgwyl i fwletinâu newyddion lleol gynnwys newyddion y gwledydd pan fo hynny'n berthnasol.

Wrth ystyried i ba raddau roedd tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth ar gyfer cynigion yr ymgeisydd, fe wnaethom nodi nad oedd RCL wedi gwneud unrhyw ymchwil i'r farchnad yn yr ardal er mwyn profi apêl bosib darlledu Nation Radio yng Ngheredigion. Felly, roedd hi'n anodd dod i farn ynghylch a fyddai Nation Radio yn debygol o fod yn fwy ynteu'n llai poblogaidd ymysg gwrandawyr yng Ngheredigion na'r gwasanaeth Radio Ceredigion presennol, sy'n cyfrif am 4.7% o oriau gwrando ar hyn o bryd yn ei ardal arolwg RAJAR³.

Yn gryno, er ein bod ni'n credu y byddai RCL mewn sefyllfa dda iawn i barhau i gynnal trwydded Ceredigion, oherwydd y gwendidau amrywiol yng nghais RCL, sydd wedi'u nodi uchod, fe wnaethom ystyried yn ofalus iawn a ddylid dyfarnu'r drwydded hon. At ei gilydd felly, yn ein barn ni, oherwydd yr anawsterau economaidd sylweddol mae trwydded Ceredigion wedi'u hwynebu yn y gorffennol o dan amrywiaeth o wahanol fodolau perchnogaeth, ac oherwydd na wnaeth unrhyw gwmni ac eithrio RCL gyflwyno cais dilys ar gyfer y drwydded hon, byddai'n well i wrandawyr yn ardal Ceredigion barhau i allu cael dewis o wasanaethau radio masnachol analog lleol. Wrth ddod i'r farn hon rydym wedi ystyried dyletswyddau Ofcom o dan adran 85(2)(b) o Ddeddf Darlledu 1990, i wneud popeth y gall ei wneud i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau radio lleol yn cael eu darparu yn y DU.

Y gofynion statudol

Mae'r adran isod yn nodi'r gofynion statudol sy'n ymwneud â thrwyddedu radio masnachol analog. Mae'r fersiwn cyhoeddus o'r cais ar gael yn:

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/radio-licence-awards-process>

Y gofynion statudol sy'n gysylltiedig â'r meini prawf ar gyfer dyfarnu trwydded leol benodol

Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau radio masnachol lleol, mae hi'n ofynnol i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol a nodir yn adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990. Dyma'r meini prawf:

- (a) gallu pob un o'r ymgeiswyr am y drwydded i gynnal, drwy gydol y cyfnod y bydd y drwydded mewn grym, y gwasanaeth y mae'n cynnig ei ddarparu;
- (b) i ba raddau fyddai unrhyw wasanaeth arfaethedig o'r fath yn darparu ar gyfer chwaethau a diddordebau'r bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth a fyddai'n cael y gwasanaeth, a phan fydd yn cynnig darparu ar gyfer unrhyw chwaeth a diddordebau penodol sydd gan y bobl hynny, i ba raddau y byddai'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer y rheini;
- (c) i ba raddau y byddai unrhyw wasanaeth arfaethedig o'r fath yn ehangu ystod y rhaglenni sydd ar gael drwy wasanaethau lleol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth a fyddai'n cael y gwasanaeth ac, yn benodol, i ba raddau y byddai'r gwasanaeth yn

³ RAJAR Q3 2018

darparu ar gyfer chwaethau a diddordebau sy'n wahanol i'r rheini y mae gwasanaethau lleol ar gyfer yr ardal neu'r gymdogaeth honno eisoes yn darparu ar eu cyfer; ac (d) i ba raddau y mae tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth arfaethedig ymysg pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r rhanbarth hwnnw.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gofynion hyn yn nhrefn eu blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn ystyried bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig oherwydd nodweddion y drwydded a fydd yn cael ei dyfarnu a'r ceisiadau amdani.